CYFRES B11

# amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Enw




DARLLENWCH
Exodus 20: 1-12



ADNOD ALLWEDDOL
Mathew 22: 37

## Gwers 2 Moses: Adnabod Duw



*Snakes and Ladders* yw hoff gêm Ben a Beca. Mae gan bob gêm ei rheolau er mwyn i bawb chwarae'n deg. Os bydd rhywun yn torri'r rheolau, yna caiff y gêm ei difetha. Mae Duw wedi llunio rheolau, nid ar gyfer chwarae gêmau, ond i ddangos i ni'r ffordd orau i fyw. Lluniodd Ef y rheolau am ei fod yn ein caru. Pan fyddwn yn eu torri, mae hyn yn difetha'n bywydau ac yn gwneud Duw a ninnau'n drist.

**C Rhaid datrys y cod er mwyn canfod enw'r rheolau arbennig roddodd Duw i Moses ar Fynydd Sinai.** 2

✹ _ ✤❄❇ _ _ _ ❇❑▲✣❈✹❍✹■ _ _ _ __ _ _ _ _

A=❁ C=✣ D=✤ E=❄ G=❇ H=❈ L=● M=❍ N=■ O=❑ R=▲ T=▼ U=◆ W=◗ Y=✹

**C Beth ddywedodd Duw amdano'i Hun yn y gorchymyn cyntaf? Llanwch y llythrennau coll (aeiouwy) er mwyn dod o hyd i'r ateb.** 2

(Mae'n bosibl y bydd yr union eiriau yn wahanol yn eich Beibl chi)

M _ f _ _ _'r _ r g l _ _ d d d _ Dd _ _;

n _ c h _ m _ r d d _ _ _ _ _ _ r _ _ l l _ r _ _ h _ n _ m _.

Roedd Duw'n awyddus i bobl Ei garu a'i addoli, ond roedden nhw'n aml yn creu gau dduwiau. Byddent yn ymgrymu o'u blaen ac yn eu haddoli.

**C Beth oedd yr enw ar eu gau dduwiau?** 1

✤ ❄ ● ◗ ❁ ◆ _ _ _ _ _ _ (Edrychwch ar y cod uchod)

**C Sut oedd Duw'n teimlo pan fyddai'r bobl yn gwneud duwiau o waith llaw? Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.** 1

hapus blin balch trist eiddigeddus llawen

Hyd yn oed heddiw, mae perygl i ninnau hefyd addoli delwau neu eilunod.

***Delw yw unrhyw beth sy'n cymryd lle Duw yn ein bywydau.***

Byddai addoli arwyr neu ddilyn y ffasiwn ddiweddaraf yn gamgymeriad os yw hynny'n ein rhwystro rhag dilyn ffordd Duw. Os oes unrhyw beth yn dod rhyngom â Duw, yna mae'r peth hwnnw yn ddelw neu'n eilun.

**C Ysgrifennwch dri pheth all fod yn eilun i bobl heddiw.** 3

| 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|

Ydych chi wedi clywed pobl yn defnyddio enw Duw fel rheg (gair drwg)? Mae Duw yn sanctaidd, ac mae Ef yn ein rhybuddio rhag gwneud hyn.

**C Ysgrifennwch beth mae Duw'n ei orchymyn ynglŷn â hyn. (Adnod 7)** 2

Mae'r gorchymyn nesaf (adnod 8) yn sôn am neilltuo diwrnod arbennig o orffwys, i anrhydeddu Duw. Dydd Sadwrn yw'r diwrnod hwnnw i'r Iddewon. Dydd Sul yw'n diwrnod arbennig ni.

**C Beth yw'r enw ar ddiwrnod arbennig yr Iddewon?** 1

**C Beth ddywedodd Duw na ddylai'r Israeliaid ei wneud ar Ei ddiwrnod arbennig Ef? Tanlinellwch yr ateb cywir.** 1

ymweld â ffrindiau        canu caneuon        gweithio        teithio

**C Pam roedd Duw'n gofyn am i'r diwrnod hwn gael ei gadw'n ddiwrnod arbennig bob wythnos? (gweler adnod 11)** 2

Mae'r gorchymyn yn adnod 12 yn rhoi rhywbeth i ni ei wneud ac mae'n addo rhywbeth hefyd.


**C Beth mae'n ddweud wrthym am wneud?** 1

**C Nawr, ysgrifennwch yr addewid.** 1

**C Ysgrifennwch un ffordd rydych chi'n meddwl y gallwch chi anrhydeddu neu ufuddhau i'ch rhieni.** 1

Roedd y Deg Gorchymyn yn gyfarwyddiadau arbennig oedd yn dweud wrth bobl am y ffordd orau i fyw dan ofal Duw.

**C Mae ci gan Ben a Beca. Ewch ag ef am dro. Dilynwch y cyfarwyddiadau'n ofalus.**



I fyny 3 sgwâr, i'r dde 5 sgwâr, i lawr 2 sgwâr,
i'r chwith 4 sgwâr, i lawr 1 sgwâr, i'r chwith 1 sgwâr.

Os dilynoch chi'r cyfarwyddiadau, dylech fod nôl ble dechreuoch chi. Mae cyfarwyddiadau a rheolau yn dweud wrthym sut i wneud pethau. Dychmygwch fyd lle mae pawb yn gwneud fel y mynno! Fyddai'r byd hwnnw ddim yn lle braf i fyw ynddo a byddai pob un ohonom yn dioddef o ganlyniad i hynny.

**Dechreuwch yma:**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| ✖ | | | | | |

**C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n crynhoi cyfraith Duw yng ngeiriau'r Arglwydd Iesu.** 2

**cyfanswm**